

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru

22 Medi 2020

Annwyl Dai

Deisebau:

- **P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig**
- **P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cael y deisebau uchod sy'n ymwneud â'r bwriad i ddatblygu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd.

Ystyriwyd y deisebau am y tro cyntaf yn ein cyfarfod ar 15 Medi a chytunwyd i ysgrifennu atoch i ofyn a yw'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn bwriadu gwneud unrhyw waith craffu ar y mater hwn yn ystod yr wythnosau nesaf.

Fel rhan o'n hystyriaeth gychwynnol o'r deisebau rydym wedi cytuno i ofyn am ymatebion ysgrifenedig pellach ar y mater hwn gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd yng Nghymru. Byddwn yn ystyried yr ymatebion a gawn mewn cyfarfod yn y dyfodol ac felly byddem yn ddiolchgar o gael gwybod a yw hwn yn fater y mae eich Pwyllgor yn bwriadu craffu arno cyn i ni ystyried pa gamau pellach, os o gwbl, y dylem eu cymryd.

Yn gywir



Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDeisebau@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddPetitions@senedd.wales

 0300 200 6565